



Archifdy Sir y Fflint

**POLISI MYNEDIAD AT
ARCHIFAU**

2014 - 2019

Cynnwys

1	Cyflwyniad	t.3
2	Datganiad Cenhadaeth	t.4
3	Nodau'r Polisi	t.4
4	Mynediad at gasgliadau Archifdy Sir y Fflint	t.5
4A	Staff yr Archifdy	t.5
4B	Diogelwch	t.6
4C	Arferion trin a thrafod da	t.6
4D	Copïo Dogfennau a Defnyddio Camerâu	t.6
4E	Cyfyngiadau	t.7
5	Mynediad o Bell	t.8
5A	Gwefan	t.8
5B	Ymholiadau dros y Ffôn, yn y Post ac ar E-bost	t.8
5C	Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol	t.8
5D	Gweithgareddau Dysgu ac Allgymorth	t.9
6	Adolygiad o'r Polisi hwn	t.9

1. Cyflwyniad

1.1 Penderfynwyd ar **Ddiffiniad a Rôl Archifau** gan *Archifau ar gyfer y 21ain ganrif*, (Yr Archifau Cenedlaethol, 2009) fel a ganlyn: "Archifau yw cofnod o weithgareddau beunyddiol gan lywodraethau, sefydliadau, busnesau ac unigolion. Maent yn ganolog i gofnodi ein straeon cenedlaethol a lleol ac yn hanfodol wrth greu treftadaeth ddiwylliannol a chefnogi amcanion polisi cyhoeddus. Trwy eu cadw byddwn yn sicrhau fod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu dysgu o brofiadau'r gorffennol i wneud penderfyniadau am y presennol a'r dyfodol".

1.2 Archifau yw ein cof a'n treftadaeth ar y cyd. Maent ar gael i bawb eu defnyddio - gan gynnwys ymchwilwyr proffesiynol, haneswyr teulu, grwpiau ysgol, myfyrwyr, ymchwilwyr cyfreithiol a swyddogion y cyngor. Maent yn arbennig o bwysig ar gyfer dysgu: maent yn ysbrydoli pobl ifanc ac yn helpu pobl o bob oed i ddatblygu sgiliau ymchwil newydd. Maent hefyd yn darparu tystiolaeth awdurdodol i helpu i ddatrys problemau ac i amddiffyn hawliau, ac annog balchder yn hunaniaethau unigol a chymunedol.

1.3 Mae Archifau yn dechrau fel dogfennau sy'n cael eu creu yn ystod gweithgareddau bob dydd. Dros gyfnod o amser, mae'r cofnodion hyn yn caffael persbectif hanesyddol, gan gynnig cysylltiad personol â digwyddiadau yn y gorffennol a'r cenedlaethau o'n blaenau. Mae'r archifau (papur, memrwn, mapiau, cynlluniau, ffotograffau, ffilmiau a chyfryngau electronig) yn rhoi cipolwg heb ei ail i ddatblygiad hanesyddol o ran lleoedd a bywydau pobl o ddydd i ddydd.

1.4 Ers 1956 mae Archifdy Sir y Fflint wedi diogelu treftadaeth archifol Sir y Fflint er mwyn diogelu'r asedau hyn na ellir eu hadfer i'w defnyddio nawr ac yn y dyfodol trwy sicrhau rheolaeth cywir o'r archifau hyd at safonau proffesiynol. Rydym yn diogelu, cadw, rheoli, rhannu a hyrwyddo etifeddiaeth archifol Sir hynafol y Fflint, sy'n dyddio o'r 13eg ganrif hyd heddiw ar gyfer defnydd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Rydym hefyd yn helpu sir fodern y Fflint a'i olynwyr i gyflawni eu blaenoriaethau fel y nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol, yn enwedig o ran datblygu cynaliadwy, economi gref, addysg a sgiliau gwell a byw'n iach yn annibynnol; ac rydym yn gweithredu fel rhan o'r cof corfforaethol i alluogi'r cynghorau i gyflawni eu swyddogaethau.

1.5 Fframwaith statudol ar gyfer y gwasanaeth archifau yn cael ei ddarparu o dan:

- y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol (Cofnodion) 1962;
- Mesur Cofrestrï a Chofnodion Plwyf 1978;
- Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 a 1967;
- Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010.

Mae mynediad at gasgliadau yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2005.

2. Datganiad Cenhadaeth

Nod Cyffredinol: Darparu gwasanaeth archifau ar gyfer Sir y Fflint yn seiliedig ar safonau, canllawiau ac arfer gorau cenedlaethol cyffredol:

- A** I nodi a chasglu deunydd archif sy'n ymwneud â siroedd presennol a hanesyddol Sir y Fflint;
- B** Gwarchod y deunydd hwn trwy ei storio a'i gadw;
- C** Gwneud y deunydd yn hawdd i'w ddefnyddio trwy drefnu, catalogio a'i fynegeo;
- D** Darparu ystafell chwilio dan oruchwyliaeth sydd ar agor i'r cyhoedd lle gellir defnyddio'r deunydd;
- E** Darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr o bell;
- F** Rhoi cyngor proffesiynol i berchnogion a cheidwaid o ddeunyddiau Archif;
- G** Codi ymwybyddiaeth o Archifdy Sir y Fflint tu fewn a thu allan i ffin y cyngor
- H** Ceisio sicrhau gwelliant parhaus drwy ragori ar bopeth a wnawn.
- J** Ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth drwy weithio o fewn gwerthoedd craidd Cyngor Sir y Fflint.

3. Nodau'r Polisi

- 3.1 Mae'r ddogfen hon yn egluro Polisi Mynediad at Archifau ar gyfer Archifdy Sir y Fflint ac mae'n dangos sut y bydd mynediad yn cael ei ddarparu i gasgliadau archif Sir y Fflint, ar y safle ac o bell. Mae hefyd yn dogfennu unrhyw daliadau neu gyfyngiadau sy'n effeithio ar y mynediad hwnnw. Mae'n cefnogi ein Datganiad Cenhadaeth fel y nodir uchod, a dylid ei ystyried ar y cyd â Blaengynllun Archifdy Sir y Fflint, Polisi ar Estyn Allan a Hyrwyddo a dogfennau polisi perthnasol eraill.

4. Mynediad at gasgliadau Archifdy Sir y Fflint

- 4.1 Mae mynediad at gasgliadau'r archif sirol ar gael i'n cymuned a'n rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, bobl Sir y Fflint, adnewwyr, Cyngor Sir y Fflint, swyddogion a chynghorwyr, grwpiau hanes ac ysgolion lleol a myfyrwyr prifysgol yn ogystal â defnyddwyr posibl ac adnewwyr.
- 4.2 Bydd mynediad at gasgliadau Archifdy Sir y Fflint, yn ein ystafell chwilio diogel o dan oruchwyliaeth staff yr archifdy, yn rhad ac am ddim.
- 4.3 Mae Archifdy Sir y Fflint yn aelod o gynllun tocynnau darllenwyr Rhwydwaith Ymchwil Archif y Sir (CARN) ac mae'n ofynnol i ymchwilwyr i ddarparu prawf o'u hunaniaeth i ymuno â'r cynllun os nad oes ganddynt docyn dilys yn barod. Mae'n hanfodol i bob ymchwilydd i gael tocyn CARN er mwyn cael mynediad i ddogfennau gwreiddiol yn Archifdy Sir y Fflint.
- 4.4 Mae archebu lle cyn yr ymweliad ag Archifdy Sir y Fflint yn hanfodol gan fod llefydd yn gyfyngedig ac mae rheolau llym sy'n cyfyngu ar nifer y bobl yn yr ystafell chwilio ar unrhyw un adeg.
- 4.5 Mae ein hystafell chwilio yn cynnwys copïau caled o'n mynegeion a chatalogau sydd ar gael ar y silffoedd agored er mwyn helpu ymwelwyr i ddod o hyd i ddogfennau a all eu helpu gyda'u hymchwil. Gellir cael mynediad i ganran uchel o'n casgliadau o bell trwy ein catalog ar-lein (CALMView) sydd ar gael yn www.flintshire.gov.uk/archives
- 4.6 Yn ogystal â'r cymhorthion chwilio hynny mae Archifdy Sir y Fflint wedi llunio ac wedi trefnu bod cyfres o ganllawiau defnyddiwr manwl ar gael, ac hefyd mae canllawiau ffynhonnell sy'n egluro'r gwahanol ffynonellau sydd ar gael yn Archifdy Sir y Fflint a'r defnydd y gellir ei gwneud ohonynt ar gyfer gwaith ymchwil.

4A Staff yr Archifdy

- 4A.1. Mae ein dewis helaeth o archifau ar gael i ymchwilwyr o dan arweiniad staff cyfeillgar, gwybodus a phrofiadol. Rydym yn trin pob cwsmer gyda chwarteisi a pharch ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau gofal cwsmeriaeth da wrth iddynt wneud gwaith ymchwil yn Archifdy Sir y Fflint yn unol â Pholisi Gofal Cwsmer Cyngor Sir y Fflint.
- 4A.2 Mae'r holl wybodaeth bwysig am ddefnyddio'r gwasanaeth yn cael ei gyfleu i'n rhanddeiliaid trwy ein gwefan, e-bost a thrwy gyfarwyddyd i ddefnyddwyr newydd a chyfarwyddyd staff.

4B Diogelwch

4B.1. Mae deunydd gwreiddiol fel arfer yn unigryw ac yn anamnewidiadwy. Er mwyn gwarchod y casgliadau mae'n ofynnol bod ymchwilyr yn arsylwi mesurau diogelwch trwy gadw at Reolau ein Hystafell Chwilio a'r Canllawiau Trin Deunyddiau sydd wedi eu harddangos yn yr ystafell chwilio. Mae gofyn i ymchwilyr i lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd, ac wrth wneud hynny eu bod yn cytuno i gadw at y rheoliadau sy'n cael eu harddangos yn yr ystafell chwilio ac ar ein gwefan.

4C Arferion trin a thrafod da

4C.1 Rhaid i bob ymchwilyr gadw at ein Canllawiau Trin Deunyddiau sy'n cael eu harddangos yn yr ystafell chwilio. Mae copi o'r canllawiau ar gael ar ffurf wedi'i lamineiddio ar bob desg.

4C.2 Mae staff ar gael i gynnig cyngor ar drin deunyddiau gan gynnwys defnyddio cyfarpar yn ymwneud â'r llyfrau fel cynhalwyr a chlustogau ac ati.

4C.3 Er mwyn diogelu ffynonellau gwreiddiol, bydd ffynonellau tebyg yn cael eu cyhoeddi yn eu lle i'w defnyddio, a phan yn bosib byddant ar ficroffilm neu fel delweddau digidol ar gyfrifiaduron yn yr ystafell chwilio.

4D Copïo Dogfennau a Defnyddio Camerâu

4D.1 Gall staff ddarparu llungopïau o ddogfennau o'n casgliadau ar yr amod bod y ddogfen yn addas i'w chopïo a ddim yn cael ei difrodi gan y broses; ac na fyddai copïo yn gwrthdaro â'r gyfraith hawlfraint, cyfyngiadau a osodwyd gan adnewwyr/perchenogion, neu ddeddfwriaeth Diogelu Data. Cyn copïo'r ffynhonnell bydd yr archifydd ar ddyletswydd yn gwirio pa mor addas yw pob eitem ar gyfer copïo. Mae'r ymchwilydd angen llenwi Ffurflen Datganiad Hawlfraint cyn y gellir cyhoeddi unrhyw gopïau.

4D.2 Gellir archebu copïau o'r ddogfen o bell. Fodd bynnag, yn ychwanegol at y cyfyngiadau uchod, ac oherwydd y galw am y gwasanaeth a staff cyfyngedig fe osodir cyfyngiadau ar orchmynion cyflwyno copi o bell. Ceir y manylion llawn yn natganiad Terfyn Maint ar Orchmynion Copïo Archifdy Sir y Fflint.

4D.3 Defnyddio Camerâu. Rydym yn annog ymwelwyr i ddefnyddio camerâu digidol neu i ddefnyddio ein gwasanaeth digidol mewnol fel dewis arall i lungopïo. Caniateir tynnu lluniau yn yr ystafell chwilio o dan amodau penodol. Bydd yn rhaid i ymchwilyr ddarllen datganiad ynglŷn â chyfyngiadau cyfreithiol Masnachu Teg a phrynu trwydded ffotograffiaeth. Ni chaniateir defnyddio fflach neu oleuadau ffotograffig

arall a rhaid cynnwys logo bach Cyngor Sir y Fflint ym mhob ffotograff sy'n cael ei dynnu.

4D.4 Bydd rhaid talu i gael llungopïo, defnyddio camera digidol a'r gwasanaeth digidol.

4E Cyfngiadau

4E.1 Mae cyfngiadau mynediad ar rai cofnodion o fewn y casgliadau. Mae'r cyfngiadau hyn yn cael eu harddangos mewn copiâu caled o'r catalogau yn yr ystafell chwilio ac ar gatalogau ar-lein Archifdy Sir y Fflint.

4E.2 Ni fydd dogfennau yn cael eu cyhoeddi i ymchwilwyr os:

- Ydi staff yn ystyried y ffynonellau yn rhy fregus ac y byddai defnydd pellach yn achosi difrod i'r eitem;
- Ydi cyfnod cau o dan y Ddeddf Diogelu Data neu ddeddfwriaeth berthnasol arall yn berthnasol i'r ffynonellau;
- Ydi gweithdrefnau arbennig ar gyfer mynediad wedi cael eu gosod gan neu wedi'u cytuno arnynt gyda'r adnewwr;
- Ydi gweithdrefnau arbennig ar gyfer mynediad wedi cael eu gosod gan neu wedi'i gytuno gan y corff sydd wedi creu'r ffynhonnell

4E.3 Bydd staff yr ystafell chwilio yn gwneud y canlynol os nad oes modd cynhyrchu'r eitem:

- Egluro pam na ellir ei gyflwyno;
- Yn cynghori, pan fo hynny'n bosibl, ar sut i wneud cais am ganiatâd i weld y eitem;
- Awgrymu ffynonellau addas neu ddewisiadau eraill ar gyfer defnydd.

4E.4 Mae casgliadau a gadwyd yn Llyfrgell Gladstone wedi, ers Mawrth 2016, cael ei gweinyddu gan Llyfrgell Gladstone yn unig. Nid yw'r casgliadau ar gael trwy Archifdy Sir y Fflint. Mae'r rhain yn cynnwys: Glynne Gladstone MSS; Nodiadau Eglwys Stephen Glynne a Bennett MSS.

Am ragor o wybodaeth gweler ein Ffurflen Gais am Fynediad at Wybodaeth a Ffurflen Mynediad DPA Adran 33 at Ddata Personol ar gyfer ymchwil, hanes, ystadegau.

5 Mynediad o Bell

- 5.1 Yn ogystal â mynediad ar y safle at Archifdy Sir y Fflint ein nod yw gwella mynediad i ddefnyddwyr o bell drwy sicrhau bod gwybodaeth ac adnoddau ar gael trwy amrywiaeth o gyfryngau.
- 5.2 Er mwyn cynyddu mynediad o bell at ein casgliadau, mae Archifdy Sir y Fflint wedi rhoi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar dudalennau Archifdy Sir y Fflint ar wefan Cyngor Sir y Fflint.
- 5.3 Mae'r tudalennau gwe yn cynnwys dolen i gatalog ar-lein (CALMView) Archifdy Sir y Fflint. Nid yw hyn yn gynhwysfawr eto ac nes bod yr holl gatalogau yn cael eu cynnwys byddwn yn sicrhau fod ein hen mynegeion (pwnc, lle ac enwau personol) ar gael ar-lein.

5A Gwefan

- 5A.1. Mae Archifdy Sir y Fflint yn adolygu ac yn diweddarau ei dudalennau gwefan gan ychwanegu cynnwys newydd sy'n cynnwys catalogau a'r wybodaeth ddiweddaraf am gasgliadau.
- 5A.2. Yn ogystal â'r cymhorthion chwilio hynny mae Archifdy Sir y Fflint wedi llunio cyfres o ganllawiau defnyddiwr manwl a chanllawiau ffynhonnell sy'n egluro'r gwahanol ffynonellau sydd ar gael yn Archifdy Sir y Fflint a'r defnydd y gellir ei gwneud ohonynt.

5B Ymholiadau dros y Ffôn, yn y Post ac ar E-bost

- 5B.1 Mae Archifdy Sir y Fflint yn cynnig cymorth gydag ymholiadau penodol ac yn rhoi gwybodaeth am ein daliadau gyda'r nod o annog ymweliad personol gan Archifdy Sir y Fflint. Mae ymholwyr yn cael eu hannog i wneud eu ymholiad yn ysgrifenedig a bydd ymateb yn cael ei wneud o fewn deg diwrnod gwaith.
- 5B.2 Bydd gwybodaeth am wasanaethau ac adnoddau a ddelir yn cael ei roi yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, os yw'r chwiliad yn golygu cael mynediad at archifau gwreiddiol bydd ein Gwasanaeth Ymchwil mewnol yn cael ei gynnig fel dewis arall i wneud ymweliad personol.
- 5B.3 Am ragor o wybodaeth ar y Gwasanaeth Ymchwil, gweler ein nodiadau cyfarwyddyd a'r ffurflen gais.

5C Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

- 5C.1 Ein nod yw defnyddio gwahanol rwydweithiau cymdeithasol er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am newyddion a digwyddiadau yn

Archifdy Sir y Fflint gyda'r bwriad o gyrraedd cynulleidfa ehangach a chodi ymwybyddiaeth o'n gwaith.

5C.2 Mae safleoedd cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir gan Archifdy Sir y Fflint yn cynnwys:

- Y safle rhwydweithio cymdeithasol, Facebook;
- Y safle rhannu lluniau, Flickr;
- Gwefan Archifau Cymru (gyda chysylltiadau i Facebook a Twitter).

5C.3 Am ragor o wybodaeth gweler Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint.

5D Gweithgareddau Dysgu ac Allgymorth

5D.1 Mae Archifdy Sir y Fflint yn anelu at ymgysylltu â defnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth. Bydd hyn yn ein galluogi i:

- Gynorthwyo defnyddwyr i wneud y gorau o'n hadnoddau.
- Annog pobl i ymgysylltu ag archifau, yn enwedig y rhai sydd ddim yn ymwybodol o Archifdy Sir y Fflint, a'r gefnogaeth y gall y sefydliad ei roi iddynt
- Hysbysu'r cyhoedd am yr hyn a wnawn, gwerth archifau a sut y gallwn fod yn berthnasol iddyn nhw.
- Defnyddio archifau i gefnogi blaenoriaethau Cyngor Sir y Fflint.
- Darparu gweithgareddau pleserus i ddefnyddwyr gwasanaeth a defnyddwyr y dyfodol.
- Hyrwyddo hynodrwydd lleol a threftadaeth amrywiol cymunedau lleol
- Ymgysylltu â grwpiau lleol gan gynnwys grwpiau hanes lleol a phlant ysgol a phlant meithrin.

5D.2 Am ragor o wybodaeth gweler ein Polisi ar Allgymorth a Hyrwyddo.

6. Adolygiad o'r Polisi hwn

6.1 Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu o leiaf bob pum mlynedd. swLluniwyd y polisi ym mis Awst 2014, a bydd yn cael ei adolygu yn Awst 2019 neu'n gynharach os bydd yr amgylchiadau yn awgrymu hynny.